# Disgrifiad Swydd

## Saer Coed

**Mae'r holl feini prawf yn <u>hanfodol</u> oni nodir fel arall**

**Yn atebol i'r canlynol:** Arweinydd Tîm

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Amherthnasol

**Diben cyffredinol y swydd:** Gwneud gwaith cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â gwaith saer coed yn effeithiol ac yn effeithlon yn nhai Barcud ac mewn eiddo arall, mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, gan weithio'n annibynnol neu'n rhan o dîm ehangach.

**Cyfrifoldebau Allweddol –**

**Gwaith Saer Coed:**

- Cyflawni tasgau atgyweirio sy'n gysylltiedig â gwaith coed a gwaith saer coed ym mhob eiddo domestig, a chyflawni gwaith newydd hyd at a chan gynnwys y cam cyntaf a'r ail gam yn y broses adeiladu, fel sy'n ofynnol.
- Cyflawni tasgau atgyweirio sy'n cynnwys gwaith ar gafnau, ffensys ac unedau cegin, rhywfaint o waith gydag ysgolion, gwaith ar doeon a gwaith ailwampio mewnol yn ôl yr angen, fel sy'n ofynnol.
- Sicrhau bod yr holl waith saer coed a wneir yn cydymffurfio â safon uchel o ran crefftwaith, gan gynnwys gofynion deddfwriaethol fel sy'n briodol yn ogystal â pholisïau a phrotocolau, yn unol â safonau Barcud.
- Ymdrin ag argyfyngau, yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau gwaith.
- Cysylltu â thenantiaid i gyflawni gwaith yn eu cartrefi, mewn modd amserol a chwrtais.
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn cyflawni dyletswyddau.
- Sicrhau bod yr holl waith a'r holl ddeunyddiau'n cael eu darparu'n unol â strategaeth gaffael Barcud.
- Rhoi cyngor ynghylch gwaith saer coed i gydweithwyr ar draws y busnes.
- Bod ar gael i ymdrin â galwadau brys ac ymateb yn brydlon iddynt ar sail rota fel sy'n ofynnol gan y Gymdeithas.
- Sicrhau bod cerbydau'n cael eu glanhau a'u tacluso'n rheolaidd a bod yr holl stoc sydd mewn cerbyd yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel ynddo.
- Fel sy'n ofynnol, cyflawni dyletswyddau crefftwr mewn disgyblaethau gwahanol er mwyn addasu i ofynion Barcud o ran busnes, sy'n newid yn barhaus.

**Pobl:**

- Mentora prentisiaid, hyfforddeion a phobl sydd ar leoliadau gwaith, fel sy'n ofynnol.
- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

**Corfforaethol:**

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisïau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*

# Manyleb Person

## Saer Coed

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd Saer Coed yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

**Cymwysterau:**

- Cymhwyster City & Guilds neu NVQ lefel 2 mewn Gwaith Saer Coed.
- Tystiolaeth bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei datblygu'n barhaus.
- Trwydded yrru lân a llawn.
- Tystysgrif ymwybyddiaeth o ddiogelwch. (D)

**Profiad:**

- O leiaf dwy flynedd yn olynol o brofiad o weithio yn y diwydiant.
- Profiad o fod yn rhan o dîm sy'n gweithio ar gontractau cylchol a chontractau rhoi gwasanaeth.
- Profiad o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Profiad o ymwneud â chyflawni ystod o brosiectau'n brydlon heb orwario.
- Profiad o gyflawni amcanion a thargedau heriol.
- Tystiolaeth o sicrhau rhagoriaeth wrth adolygu a darparu gwasanaethau, ac ymrwymiad i wella'n barhaus.

**Gwybodaeth/Sgiliau:**

- Y gallu i gyflawni'r tasgau canlynol yn fedrus: hongian drysau, gosod celfi drws, gosod ffenestri, grisiau a thrawstiau cyffredin, teilio, gwneud gwaith plymio syml, plastro rhannau o arwynebau, a gwneud gwaith brics syml.
- Sgiliau rheoli prosiect, a'r gallu i gynllunio, trefnu a blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn cyflawni targedau a bodloni terfynau amser.
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.
- Y gallu i fod yn aelod effeithiol o dîm.
- Sylw da i fanylion.
- Gwybodaeth gyffredinol am iechyd a diogelwch, yn enwedig diogelwch yn y gweithle.

- Sgiliau rhyngbersonol da.
- Sgiliau cyfathrebu llafar da.
- Y gallu i gyflawni gwaith corfforol iawn.
- Y gallu i siarad Cymraeg. (D)
- Sgiliau trefnu er mwyn gallu cynllunio a blaenoriaethu llwyth gwaith personol o fewn amserlenni a gytunwyd.
- Y gallu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.